# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2022**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN SYLFAENOL**
**3010N10-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1 - HAEN SYLFAENOL**

**HAF 2022 CYNLLUNIAU MARCIO**

**Walkers' Wood** gan Myrddin ap Dafydd

**Fy Ngardd** gan Lis Jones

**Cymharu**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r ddwy gerdd yn cyfeirio at rywle y tu allan lle maen nhw'n mwynhau mynd i'w weld.

- Mae dail y coed yn amlwg yn y ddwy gerdd. Yn WW mae'r bardd yn sylwi ar eu lliwiau, a'r bachgen yn eu camgymryd am becyn crisps. Yn FNG mae eu lliwiau'n newid i ddangos y tymhorau'n newid.

- Mae prydferthwch byd natur yn bwysig yn y ddwy gerdd. Mae WW yn ein hannog i beidio â dinistrio ein hamgylchedd, a FNG yn rhoi darlun hyfryd o'r amgylchedd.

- Mae WW yn canolbwyntio ar un agwedd o fyd natur, ond mae FNG yn cyfeirio at y coed a'r blodau a'r tywydd.

- Mae FNG yn gorffen yn obeithiol gan fod y gwanwyn yn dod wedi'r gaeaf. Mae WW yn fwy trist gan fod y bardd yn awgrymu nad yw pethau fel y dylen nhw fod.

© WJEC CBAC Cyf.

**Walkers' Wood**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r cyflwyniad i'r gerdd yn awgrymu bod yr ymwelwyr wedi amharu ar Goed Llugwy mewn mwy nag un ffordd, trwy adael sbwriel yn y lle, ond yn bwysicach, trwy newid yr enw.

- Sgwrs rhwng tad a mab yw'r gerdd, gyda'r tad yn ateb cyfres o gwestiynau gan y mab.

- Cwestiwn am yr enw yw'r cwestiwn cyntaf, gyda'r tad yn nodi mai Coed Llugwy yw'r enw iawn ar y lle, ond bod yr ymwelwyr yn ei alw'n Walkers' Wood.

- Mae'r bachgen yn gweld lliw'r dail fel creision, ac mae'r tad yn egluro bod popty'r hydref wedi'u rhostio, a'u gadael yn wledd ar lawr y goedwig.

- Cwestiynau ac atebion tebyg a gawn yng ngweddill y gerdd. Mae'n dweud bod y dail yn drist eu bod yn colli'i gilydd wrth ddisgyn.

- Mae'r bachgen yn gweld lliw deilen fel ceiniog newydd, ac mae'r tad yn parhau gyda'r trosiad bod twll ym mhwrs y ffawydd. Mae'n gweld dail eraill fel darnau o jig-sô, ac ateb y tad yw er mwyn gweld y llun yn llawn y dylai edrych ar y dderwen.

- Daw'r cwestiwn pwysicaf ar ddiwedd y gerdd. Mae'r mab yn sylwi ar ddeilen ryfedd iawn ar lawr y goedwig. Cawn ddarlun ohoni'n lliwgar ac yn sgleiniog. Mae ateb y tad yn annisgwyl – nad deilen ydy hi o gwbl, ond pecyn o Walkers' Crisps, wedi cael ei adael gan y rhai a fu'n crwydro Walkers' Wood.

- Mae'n arwyddocaol nad y rhai a fu'n crwydro Coed Llugwy sydd wedi gadael y pecyn ar lawr. Mae'n debyg fod ganddyn nhw fwy o barch at y lle.

**Fy Ngardd**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Darlun o hyfrydwch byd natur a gawn yn y pennill cyntaf. Mae popeth yn iawn yn yr ardd hon. Mae'n 'lliwgar yr yr haf', ac mae'r 'haul yn t'wynnu'n braf.'

- Ar ôl y darlun hyfryd yn y pennill cyntaf, mae pethau'n newid erbyn yr ail bennill. Mae'r dail yn disgyn, ac mae byd natur fel petai'n ymosod yn greulon ar y bardd.

- Er y creulondeb, mae yna brydferthwch o hyd, hyd yn oed ynghanol y gaeaf. Mae 'blodyn bach a'i ben yn wyn' yn dod i dyfu gan arwyddo bod y gwanwyn ar ei ffordd.

- Mae'r un blodyn gwyn wedi rhoi lle i flodau hyfryd unwaith eto.

- Nid y blodau'n unig sy'n tyfu, mae byd natur wedi sicrhau bod dail yn tyfu ar y coed unwaith eto.

**Neges**

Mae neges y ddwy gerdd yn debyg i'w gilydd, sef pwysigrwydd cadw byd natur ar ei orau. Mae WW yn rhoi'r neges i ni drwy ganolbwyntio ar fyd natur a'r iaith Gymraeg. Mae'n canolbwyntio ar y diwedd ar un elfen o fyd natur, sef llygredd. Mae'n gweld llygredd byd natur fel ymosodiad ar yr iaith Gymraeg.

Mae FNG yn dewis rhoi darlun hyfryd o fyd natur, a gallwn weld pwysigrwydd ei gadw fel hyn.

© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull Walkers' Wood**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| Oes na enw... Dad? | cwestiwn |
| Coed Llugwy... Walkers' Wood | cyferbyniad |
| popty'r hydref | trosiad |
| fel darnau o jig-sô | cyffelybiaeth |
| mae'n wyrdd a glas | rhestru |
| Walkers' Crisps... Walkers' Wood | eironi |

**Arddull Fy Ngardd**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| yn drwm a gwyrdd | rhestru/ansoddeiriau |
| yn felyn, brown a choch | rhestru/ansoddeiriau |
| gwynt i chwipio ar fy moch | personoliad |
| haf/gaeaf | cyferbyniad |
| blodyn bach/blodau…di-ri' | cyferbyniad |
| **fy** ngardd | rhagenw |

**Mesur**

Mydr ac Odl yw mesur y ddwy gerdd. Mae hyn yn addas gan fod y mesur yn awgrymu natur hamddenol taith y bardd a'i fab yn 'Walkers' Wood', a phatrwm cyson y tymhorau yn 'Fy Ngardd'.

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **31-40** | Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>Dangos ymateb personol eithaf da<br>Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>Cymharu testunau'n eithaf da<br>*Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>*Arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **21-30** | Dangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Ymgais i ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol<br>Dangos peth ymateb personol<br>Defnyddio dyfyniadau addas<br>Ymgais i gymharu testunau<br>*Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>*Gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | Ymgais i ddangos dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Ymgais i drafod addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Ymgais i ymateb yn bersonol<br>Defnyddio ambell ddyfyniad<br>Peth ymgais i gymharu testunau<br>*Dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>*Peth gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir* |
| **0-10** | Ymgais i ddangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Cyfeirio at arddull/iaith i greu awyrgylch<br>Dechrau ymateb yn bersonol<br>Ymgais i ddefnyddio ambell ddyfyniad<br>*Ymgais at ddilyniant*<br>*Gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.